OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 No. 291

# Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2019

## RHAN 5

## Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau – diogelu

**Diogelu - gofyniad cyffredinol**

**18.** Rhaid i'r darparwr gwasanaeth ddarparu'r gwasanaeth mewn ffordd sy'n sicrhau bod unigolion yn ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth, esgeulustod a thriniaeth amhriodol.

**Polisïau a gweithdrefnau diogelu**

**19.**—(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth gael polisïau a gweithdrefnau yn eu lle—

(a) ar gyfer atal camdriniaeth, esgeulustod a thriniaeth amhriodol, a

(b) ar gyfer ymateb i unrhyw honiad neu dystiolaeth o gamdriniaeth, esgeulustod neu driniaeth amhriodol.

(2) Yn y rheoliad hwn, cyfeirir at bolisïau a gweithdrefnau o'r fath fel polisïau a gweithdrefnau diogelu.

(3) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod ei bolisïau a'i weithdrefnau diogelu yn cael eu gweithredu'n effeithiol.

(4) Yn benodol, pan fo honiad neu dystiolaeth o gamdriniaeth, esgeulustod neu driniaeth amhriodol, rhaid i'r darparwr gwasanaeth—

(a) gweithredu yn unol â'i bolisïau a'i weithdrefnau diogelu,

(b) cymryd camau gweithredu ar unwaith i sicrhau diogelwch pob unigolyn y darperir cymorth ar ei gyfer,

(c) gwneud atgyfeiriadau priodol i asiantaethau eraill, a

(d) cadw cofnod o unrhyw dystiolaeth neu sylwedd unrhyw honiad, unrhyw gamau gweithredu a gymerir ac unrhyw atgyfeiriadau a wneir.

**Dehongli Rhan 5**

**20.** Yn y Rhan hon—

ystyr "camdriniaeth" ("*abuse*") yw camdriniaeth gorfforol, rywiol, seicolegol, emosiynol neu ariannol ac, mewn perthynas â phlentyn, unrhyw niwed arall.

At ddibenion y diffiniad hwn—

(a) mae "camdriniaeth ariannol" ("*financial abuse*") yn cynnwys—

(i) bod arian neu eiddo arall person yn cael ei ddwyn;

(ii) bod person yn cael ei dwyllo;

(iii) bod person yn cael ei roi o dan bwysau mewn perthynas ag arian neu eiddo arall;

(iv) bod arian neu eiddo arall person yn cael ei gamddefnyddio;

(b) mae i "niwed" ("*harm*") yr un ystyr ag yn adran 197(1) o Ddeddf 2014(**1**);

mae i "esgeulustod" ("*neglect*") yr un ystyr ag yn adran 197(1) o Ddeddf 2014;

mae "triniaeth amhriodol" ("*improper treatment*") yn cynnwys gwahaniaethu neu ataliaeth anghyfreithlon, gan gynnwys amddifadu amhriodol o ryddid o dan delerau Deddf Galluedd Meddyliol 2005(**2**).

(**1**) Diffinnir "the 2014 Act" ("Deddf 2014") yn adran 2(5) o'r Ddeddf fel Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (dccc 4).

(**2**) 2005 p. 9.